
# Jôcs Tŷ Bach Mistar Urdd

Falle bydd rhaid i mi eich rhwystro rhag anfon jôcs i mi o hyn ymlaen! Mae fy ochrau i'n brifo gormod. Wel, am chwerthin! Yn amlwg, Cymru ydi'r lle gorau yn y byd am jôcs - llond tŷ bach arall ohonyn nhw'r mis yma eto...
Mae pob jôc yn mynd i dŷ bach Mistar Urdd, a dim ond y rhai da sy'n cael dod allan. Mae'r rhai gwael yn gorfod aros yn y tŷ bach... Am byth!




Beth ydych chi'n galw llwyth o gathod anhrefnus?

Cath-astroffi!

Beth sy'n waeth na dod o hyd i bry mawr tew wrth fwyta afal?
Dod o hyd i hanner pry mawr tew... Blyyych!

Neidr fach: Ydw i'n wenwynig Mami?
Mami neidr: Wyt, pam?
Neidr fach: O! Na! Dw i newydd gnoi fy nhafod!

Lle mae Tarzan yn prynu dillad?
Mewn jyngl sêl!

Glywest ti am y boi wnaeth fwyta bylbiau cennin Pedr?

Na!

Mae o yn yr ysbyty ond mi fydd o'n dod allan yn y Gwanwyn!

Mi wnaeth yna lew ddianc o'r syrcas a bwyta pawb heblaw'r clown.
Roedd o'n blasu'n ddoniol...

Pwy sy'n ateb ar frys os ydych chi'n ffonio nain, nain, nain?

Nain!

Ela a Hawys, Eglwyswrw

Beth wyt ti'n galw buwch ar drampolîn?

Ysgytlaeth!

Beth yw'r unig beth sy'n meiddio mynd yn agos at ben ôl dinasor mawr?

Ei gynffon!

Pam fod bananas yn gorfod rhoi llwyth o eli haul cyn mynd i'r traeth?
Dydyn nhw ddim eisiau dechrau pilio...!

Sut mae gwenyn yn mynd i'r ysgol?

Ar y bzzzzzz ysgol wrth gwrs!

Dyn mewn siop: Fi'n moyn bisgedi i fynd gyda chaws plîs?
Siopwr: Ryvita?
Dyn: Wrth gwrs rhai i fyta!
Beth arall 'ych chi fod i wneud gyda bisgedi?

Beth sy'n mynd yn fwy gwlyb yr hiraf mae o'n sychu?

Tywel!

Oes gen ti jôc?
Anfon hi aton ni
cip@urdd.org